Bwrdd Rheoli GwE

Crynodeb o drafodaethau yn y cyfarfod a gynhaliwyd 3 Gorffennaf 2015

Presennol	
Sir y Fflint	Ian Budd, Cadeirydd
Gwynedd	Garem Jackson, ar ran Arwyn Thomas
Wrecsam	John Davies
Sir Ddinbych	Karen Evans
Conwy	Richard Ellis Owen
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE	Huw Foster Evans
Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE (Cefnogaeth a Broceru)	Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE (Safonau)	Alwyn Jones
Rheolwr Busnes a Chyllid GwE	Susan Owen Jones
Rheolwr Prosesau GwE	Ann Grenet
Uwch Ymgynghorydd Her GwE (ar gyfer eitem 2)	Eleri Jones
Rheolwr Gwybodaeth GwE (ar gyfer eitem 3)	Rheon Larsen
Ymgynghorydd Her GwE (ar gyfer eitem 5)	Bethan James
Ymgynghorydd Her GwE (ar gyfer eitem 5)	Phil Lord
Ymddiheuriadau	
Gwynedd	Arwyn Thomas
Ynys Môn	Delyth Molyneux

CONFIDENTIAL

Trafodwyd y prif faterion canlynol:

1. **Yn codi o nodiadau'r cyfarfod blaenorol:**

1.1 CLG GwE: rhoddwyd diweddariad am y gwaith cychwynnol a wnaethpwyd gan grŵp tasg y Cyfarwyddwyr

1.2 Achos Busnes Model Cenedlaethol: cyfeiriodd y Cadeirydd at waith y Rhwydweithiau rhanbarthol ar gynllunio strategol mewn perthynas â'r Model Cenedlaethol

1.3 ANGon: **Cytunodd** y Cyfarwyddwyr y dylid sefydlu swyddogaeth cefnogaeth ranbarthol integredig

Gweithredu:

- GwE i barhau trafodaethau gyda LlC mewn perthynas â chyllideb ychwanegol ar gyfer swyddogaeth ANG ac estyniad posib i'r gyllideb ar gyfer Cydlynydd Rhaglenni Proffesiynol (CRhP)
- GwE i geisio adnabod person addas ar gyfer y rôl CRhP
- GwE i barhau gyda'r arfer effeithiol presennol yn rheolaeth y swyddogaeth ANG ar gyfer 2015-16, gan gyflwyno dull rhanbarthol wedi ei ddatblygu'n llawn ar gyfer 2016
- Y Cyfarwyddwyr i hysbysu Cydlynwyr ANG / staff ALl o benderfyniad y Bwrdd hwn

2. **Safonau yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4**

2.1 Cyflwynodd Uwch Ymgynghorydd Her GwE adroddiad ar y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4, gan ddwyn sylw yn benodol at yr adrannau ar gyflawniad iaith gyntaf yn y rhanbarth, dilyniant ieithyddol, crynodebau ar gyfer pob ALl a'r rhestr argymhellion.

2.2 Yn ogystal, byddai adroddiad llawn ar gael ym Medi ar ddeilliannau Ymweliad 2 mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr Ymgynghorwyr Her am y Gymraeg.

2.3 Byddai adroddiad cenedlaethol ar gael erbyn diwedd tymor yr haf mewn perthynas â'r prosiect gwiriad.

3. **Data**

3.1 Cyflwynodd Rheolwr Gwybodaeth GwE waith a wnaethpwyd ar goladu a rhannu data, a groesawyd yn fawr gan y Cyfarwyddwyr.

3.2 Adroddodd Pennaeth Safonau GwE y byddai trefniant rhanbarthol o osod targedau ar wefan GwE yn ei le o Fedi 2015. Byddai GwE hefyd yn tracio perfformiad ym mlynyddoedd 2, 6, 9 ac 11 yn erbyn targedau, yn dymhorol.

Gweithredu:

- Y Rheolwr Gwybodaeth i wneud yr un cyflwyniad i swyddogion ALl

3.3 **Cytunodd** y Cyfarwyddwr y dylai'r Protocol Rhannu Gwybodaeth gael ei ddiwygio, i gynnwys cyfeiriad at DEWI

CONFIDENTIAL

3.4 **Cadarnhaodd** y Cyfarwyddwyr y penderfyniad i beidio mynd ymhellach gyda'r prosiect Canolfan Athrawon.

3.5 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr i'r Rheolwr Gwybodaeth baratoi papur yn ail-ymweld â'r cynigion ar gyfer Gwasanaeth Rhanbarthol Rheoli, gan adrodd yn ôl i un o'r cyfarfodydd nesaf.

4. **Adroddiad gan GwE**

Cyfeiriodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE at:

4.1 **Estyn a'r drefn arolygu consortia**

Derbyniwyd gwybodaeth gychwynnol am y drefn, gyda'r arolygwyr yn treulio pythefnos ym mhob consortiwm.

4.2 **Her ac Adolygiad**

Roedd yna waith dilyn i fyny yn deillio o'r cyfarfod Her ac Adolygiad diweddar. Nodwyd y cais i Geraint Rees (LlC) fod yn gyfrifol am drafod cynlluniau sgriwtini gyda GwE.

4.3 **Bwrdd Cyflawni Allanol**

Rôl y Bwrdd oedd adrodd i'r Gweinidog ar y datblygiadau Donaldson, Cynghorydd Arbenigol ar Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i Gymru a'r Fargen Newydd. Roedd yn cael ei ail-enwi yn "Bwrdd Newid Dyfodol Llwyddiannus".

Yn ei gyfarfod diweddar, trafododd y Bwrdd Ysgolion Arloesi, gyda thri chategori: Digidol, Dyfodol Llwyddiannus, Y Fargen Newydd. Er gwaethaf pryderon am y raddfa amser, **gofynnwyd i** GwE ryddhau'r wybodaeth ar ei wefan a chynnal proses dethol gyda phersonau cyswllt ALl dros yr haf.

Gweithredu:

- Cyfeirio pryder Bwrdd Rheoli GwE i LlC, trwy Owen Evans, am raddfa amser y prosiect Ysgolion Arloesi a'r angen am eglurder.

Cyfeiriodd Rheolwr Busnes a Chyllid GwE at:

4.4 Gyfrifon terfynol GwE

4.5 Waith yn mynd rhagddo ar gyllideb 2015-16

4.6 Rolau newydd oedd yn cael eu creu o fewn y tîm busnes, heb yr angen am arian ychwanegol

5. **CYSAG**

Cyflwynodd Ymgynghorwyr Her GwE bapur briffio yn nhermau darpariaeth ar gyfer CYSAG.

CONFIDENTIAL